
Rhoi Gwyddor Chwaraeon a Chyflyru ar waith – E217

Patrwm cyflwyno O fis Hydref i fis Mehefin

Disgrifiad o'r modiwl

Mae'r cwrs 60 credyd hwn yn fodiwl lefel 2 sy'n cyfrif tuag at Radd Sylfaen mewn Chwaraeon a Ffitrwydd a Diploma Addysg Uwch mewn Chwaraeon a Ffitrwydd, yn ogystal â gradd BSc mewn Chwaraeon, Ffitrwydd a Hyfforddi. Anelir y cwrs at hyfforddwyd chwaraeon a gweithwyr proffesiynol ym maes ymarfer corff sydd am feithrin eu gwybodaeth wyddonol sylfaenol a'u sgiliau dadansoddi a datblygu eu gyrfa yn y rolau gwaith hyn. Bydd y myfyrwyr yn canolbwyntio ar gymhwyso agweddau ar Wyddor Chwaraeon ac Ymarfer Corff, gan gynnwys anatomi gweithredol, dadansoddi symudiadau ac egwyddorion biomecanyddol; sefydlogrwydd craidd a hyfforddiant/cyflyru ar gyfer grwpiau chwaraeon, ffitrwydd a phoblogaethau arbennig.

Manyleb y person

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y cwrs hwn yn unol â [manyleb gyffredinol y person](#) ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a nodir yn y fanyleb gyffredinol, dylech feddu ar y canlynol:

- gradd neu gymhwyster cyfatebol mewn chwaraeon, ffitrwydd, ymarfer corff neu hyfforddi, sydd ag elfen gwyddor chwaraeon ac ymarfer corff sylweddol
- profiad o weithio mewn rôl hyfforddi yn y sector chwaraeon/ffitrwydd
- diddordeb brwd mewn o leiaf ddau o'r canlynol: egwyddorion, biomecanyddol neu gyflyru sy'n sail i hyfforddi chwaraeon ac ymarfer corff
- profiad o helpu eraill i ddysgu, e.e. drwy addysgu, hyfforddi neu arfarnu
- ymrwymiad i gymryd rhan mewn fforymau ar-lein, gwe-diwrtorialau sain a thechnolegau ar-lein eraill.

Byddai'n fanteisiol pe byddech yn meddu ar y canlynol:

- profiad o roi gwyddor a theori chwaraeon ac ymarfer corff ar waith mewn lleoliadau y tu hwnt i addysg uwch/bellach, ond nid yw'n hanfodol

Manylion sy'n ymwneud â'r modiwl – gallwch gael eglurhad llawn ar y wefan

Credydau a ddyfernir i'r myfyrwyr am gwblhau'r modiwl yn llwyddiannus:	60
Nifer o aseiniadau a gyflwynir gan y myfyrwyr:	4
Dull o gyflwyno'r aseiniadau:	1.5
Lefel gofynion TGCh:	2
Nifer o fyfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol:	20
Band cyflog:	7
Nifer o oriau yr wythnos addysgu sy'n debygol:	6